## ADRAN 1. PA GAMAU Y MAE LLYWODRAETH CYMRU YN EU HYSTYRIED A PHAM?

Amcanion polisi cyffredinol y cynllun Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr (EPR) ar gyfer pecynwaith (*packaging*) yw helpu i gyflawni dim gwastraff erbyn 2050, cefnogi'r gostyngiad yn y defnydd o ddeunyddiau crai newydd sbon a chyfrannu at y newid yng Nghymru tuag at economi gylchol, carbon sero net. Bydd y diwygiadau'n rhoi costau gwaredu pecynwaith ar y cynhyrchwyr, a thrwy hynny ysgogi mwy o effeithlonrwydd o ran adnoddau, gwella cyfraddau ailgylchu Cymru ymhellach a lleihau sbwriel. Fe fydd y cynllun yn disodli'r cynllun presennol lle mae cynhyrchwyr yn talu dim ond hyd at 7% o'r costau.

Egwyddor ddiffiniol EPR yw 'y llygrwr sy'n talu', lle mae'r rhai sy'n gwneud cynhyrchion sy'n achosi llygredd yn talu am y costau llawn pan fyddant yn dod yn wastraff ac wrth ddatblygu'r diwygiadau EPR hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi cymhwyso egwyddor datblygu cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gan gwmpasu:

**Hirdymor**
Bydd y cynllun yn cymell mwy o effeithlonrwydd adnoddau ac yn cyfrannu at y newid tuag at economi fwy cylchol yng Nghymru, lle mae gwastraff yn cael ei osgoi, ac adnoddau'n cael eu cadw mewn defnydd mor hir â phosibl. Mae hyn yn rhan hanfodol o'r camau hirdymor sydd eu hangen i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur, gan ddod â chyfleoedd economaidd sylweddol hefyd fel rhan o'r broses o drosglwyddo i economi di-garbon.

**Atal**
Nod y cynllun yw helpu i fynd i'r afael â rhai o achosion sylfaenol yr argyfwng hinsawdd a natur o ran y defnydd anghynaliadwy o adnoddau a chymell effeithlonrwydd adnoddau. Bydd ffioedd cynhyrchwyr sydd â rhwymedigaeth yn cael eu modiwleiddio felly bydd cynhyrchion sydd ag effeithiau amgylcheddol uwch yn talu ffioedd uwch na chynhyrchion sydd ag effeithiau is. Bydd hyn yn cymell busnesau i ystyried effaith y pecynwaith a ddefnyddir ar hyd ei gylch oes cyfan, gan wneud atal yn rhan annatod o'r broses.

**Integreiddio**
Mae'r diwygiadau hyn yn rhan o gyfres ehangach o gamau integredig i gyflawni yn erbyn amcanion cyffredinol y rhaglen lywodraethu, sy'n gwneud cyfraniad allweddol i'r ymrwymiad i ddatgarboneiddio economi Cymru. Wrth ddatblygu'r cynllun, ystyriwyd yr angen am gamau integredig sy'n sicrhau canlyniadau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol. Caiff y nodau hyn eu rhannu â sefydliadau eraill o'r sector cyhoeddus a'r sector preifat yng Nghymru, gyda'r nod cyffredin o ymateb i argyfwng yr hinsawdd a datgarboneiddio ein heconomi.

**Cydweithio**
Mae datblygiad y cynllun wedi'i gefnogi drwy gydweithio â phartneriaid allweddol, gan gynnwys y llywodraethau eraill yn y DU, Awdurdodau Lleol Cymru a chyfranwyr ar draws y gadwyn gwerth pecynwaith. Bydd gweithredu'r diwygiadau hyn yn llwyddiannus yn gofyn am gydweithio parhaus ar draws y gadwyn gwerth

pecynwaith, gan gynnwys gweithgynhyrchwyr pecynwaith, cynhyrchwyr nwyddau wedi'u pacio, llenwyr pecynwaith, manwerthwyr, awdurdodau lleol, ailgylchwyr a chyrff gwaredu, treulwyr ac aelodau o'r cyhoedd.

Mae cydweithio yn rhan o ddyluniad gweithredol y diwygiadau hefyd ac mae gofyn am gydweithio rhwng Awdurdodau Lleol, sy'n casglu ac yn ailgylchu gwastraff pecynwaith o aelwydydd, a'r busnesau sydd â rhwymedigaeth newydd a fydd yn dod yn gyfrifol am gostau rheoli diwedd oes y gwastraff pecynwaith a ysgwyddir gan Awdurdodau Lleol wrth ddarparu eu gwasanaethau gwastraff ac ailgylchu mewn perthynas â phecynwaith.

**Cynnwys**
Mae cynnwys ac ymgysylltu wedi bod yn sail i ddatblygiad y cynllun, gan gynnwys yr ymrwymiad i EPR yn y cynllun *Mwy Nag Ailgylchu*, y strategaeth economi gylchol. Roedd y gwaith o ddatblygu'r strategaeth yn cynnwys 40 a mwy o ddigwyddiadau ymgysylltu ledled Cymru, gan ymgysylltu'n weithredol â thua 1,000 o randdeiliaid, gyda digwyddiadau penodol yn targedu pobl ifanc, busnesau, awdurdodau lleol, y sector gwastraff, grwpiau amgylcheddol, y byd academaidd ac eraill.

Yn ogystal, mae dau ymgynghoriad wedi eu cynnal yn benodol ar y cynllun EPR, ar y cyd â llywodraethau'r DU, Yr Alban a Gogledd Iwerddon. Roedd y cyntaf ar gyflwyno'r cynllun yn 2019. Cynhaliwyd yr ail yn 2021, ac roedd yn gofyn am farn pobl ar gynigion penodol y polisi. Mae hyn wedi bod yn amhrisiadwy o ran sicrhau bod y diwygiadau'n ymarferol ac yn effeithiol, gyda mwyafrif llethol o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn cymeradwyo'r cynigion.

**Effaith**
Prif effaith y cynllun fydd cymell mwy o effeithlonrwydd adnoddau, sy'n hanfodol wrth i Gymru drosglwyddo'n ehangach i economi gylchol ac a grybwyllir yn benodol yn y disgrifiad statudol o nod *Cymru ffyniannus*. Drwy symud y cyfrifoldeb am reoli cynhyrchion ar ddiwedd eu hoes i'r busnesau hynny sy'n rhoi cynnyrch ar y farchnad, mae'r diwygiadau hyn yn cymell busnesau i wneud penderfyniadau mwy amgylcheddol gyfrifol ac effeithlon o ran adnoddau.

Drwy gydol datblygiad y cynllun, ymgynghorwyd ag amrywiaeth eang o fusnesau a chyrff masnach i wneud y gorau o effaith gadarnhaol EPR. Effaith allweddol y diwygiadau yw sbarduno mwy o fuddsoddiad yn y gwaith o reoli gwastraff pecynwaith, sy'n hanfodol er mwyn mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur a datgarboneiddio'r economi, gyda gofyniad ar fusnesau sydd â rhwymedigaeth i dalu'r gost lawn o reoli'r deunydd. Bydd y ffordd y bydd y costau hyn yn cael eu rheoli yn benderfyniad masnachol i bob cynhyrchydd. Bydd rhai yn amsugno'r costau, gall eraill leihau faint o becynwaith y maent yn ei ddefnyddio neu newid y deunyddiau a ddefnyddir, a gall eraill drosglwyddo rhai o'r costau i dreulwyr. Os ydynt yn trosglwyddo costau i dreulwyr, byddai'r treulwyr hynny sy'n prynu symiau mawr o gynhyrchion sydd wedi'u pacio'n drwm yn teimlo'r effaith fwyaf.

Mae'r diwygiadau'n cynnwys mesurau i fynd i'r afael â sbwriel hefyd, drwy gymhellion cost ac ymgyrchoedd gwrth-sbwriel. Yn ogystal, bydd labelu gwell yn rhoi gwybodaeth glir i bobl am sut i waredu eu pecynwaith, gan eu helpu i gyfrannu at well cyfraddau ailgylchu ac atal sbwriel.

**Costau ac Arbedion**
Ar lefel y DU gyfan, mae disgwyl i'r cynllun fod yn un niwtral o ran cost. Yr amcangyfrif canolog o Werth Presennol Net y cynllun yn y DU yw £1.3 miliwn, o fewn ystod o -£2,549 miliwn i +£2,207 miliwn yn dibynnu ar yr opsiwn a ddewisir.

Erbyn 2033, rhagwelir y bydd y cynllun yn arbed tua 270kt o allyriadau carbon bob blwyddyn ledled y DU. Disgwylir 2.2MT o allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr.

Bydd arbedion anfesuradwy pellach yn cael eu cronni drwy'r gostyngiad yn y defnydd o ddeunyddiau crai newydd sbon a manteision amgylcheddol ac economaidd cysylltiedig ynghyd â chynnydd mewn gwerth canfyddedig amwynder yn sgil llai o sbwriel pecynwaith.

**Mecanwaith**
Bydd yr Offeryn Statudol ar gyfer adrodd am ddata yn cael ei osod gerbron y Senedd ym mis Ionawr 2023 a bydd yn rhoi ar waith y gofynion ar gyfer casglu'r data yn 2023 er mwyn llywio'r gwaith o gyfrifo ffioedd cynhyrchwyr i'w talu yn 2024. Yna bydd rheoliadau'r DU yn cael eu cyflwyno er mwyn rhoi'r prif ddiwygiadau EPR ar waith.

## ADRAN 8. CASGLIADAU

### 8.1 Sut mae pobl sydd fwyaf tebygol o gael eu heffeithio gan y cynnig wedi bod yn rhan o'r gwaith o'i ddatblygu?

Diben yr offeryn statudol hwn yw gweithredu gofynion fel y gellir casglu data ar faint o becynwaith a'r math o becynwaith a roddir ar y farchnad. Gan fod diwygiadau Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr yn cymhwyso’r egwyddor y llygrwr sy'n talu, mae busnesau sydd â rhwymedigaeth am y tro cyntaf wedi’u cynnwys wrth ddatblygu'r diwygiadau drwy ddau ymarfer ymgynghori ochr yn ochr â gweithgorau penodol.

Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus penodol ar EPR ar gyfer pecynwaith ar y cyd â'r llywodraethau eraill yn y DU ar nodau cyffredinol y cynllun arfaethedig. Fe'i cynhaliwyd yn 2019 ac fe gafwyd 679 o ymatebion unigol a 34 o ymatebion drwy ymgyrch. Yna cynhaliwyd ymgynghoriad pellach ar y cyd ledled y DU ar gynigion manylach ar gyfer polisi EPR rhwng mis Mawrth a mis Mehefin 2021 ac roedd yn cynnwys digwyddiadau ymgysylltu wedi'u haddasu i grwpiau penodol gan gynnwys cynhyrchwyr, manwerthwyr, busnesau ailgylchu a sefydliadau trydydd sector ledled y DU.

Yn fwy cyffredinol, mae Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru yn cynnwys yr ymrwymiad y bydd yn *Cyflwyno cynllun cyfrifoldeb estynedig cynhyrchwyr i gymell busnesau i leihau gwastraff,* gyda'r ymrwymiad wedi'i gynnwys hefyd yn y strategaeth economi gylchol, *Mwy Nag Ailgylchu.* Cynhaliwyd ymgynghoriad ar yr olaf rhwng mis Rhagfyr 2019 ac Ebrill 2020, gyda 40 a mwy o ddigwyddiadau ymgysylltu, a gynhaliwyd ledled Cymru a thu hwnt, gan ymgysylltu'n weithredol a thua 1,000 o ddinasyddion a rhanddeiliaid rhwng y digwyddiadau a'r ymgynghoriad ysgrifenedig.

## 8.2 Beth yw'r effeithiau mwyaf arwyddocaol, cadarnhaol a negyddol?

Diben yr offeryn statudol hwn yw rhoi'r gofynion ar waith fel y gellir casglu data ar faint o becynwaith a'r math o becynwaith a roddir ar y farchnad. Bydd hyn yn darparu data ar gyfer y cynllun Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr ar gyfer pecynwaith, a bydd effaith hynny'n golygu bod gofyn i fusnesau sydd â rhwymedigaeth dalu costau llawn y gwaith o reoli pecynwaith gydol ei oes. Bydd y cynigion felly'n effeithio ar fusnesau sy'n gwneud, yn gwerthu neu'n trin pecynwaith, gyda'r rhai sy'n gosod cynnyrch ar y farchnad yn talu costau llawn gwastraff pecynwaith. O dan y cynllun, bydd costau rheoli gwastraff pecynwaith, sy'n cael ei ysgwyddo gan awdurdodau lleol ar hyn o bryd, felly yn cael eu trosglwyddo i gynhyrchwyr a fydd yn talu costau casglu ac adrodd am ddata hefyd.

Mae'r ffordd y bydd busnesau'n rheoli'r costau hyn yn benderfyniad masnachol i bob cynhyrchydd - bydd rhai yn amsugno'r costau, gall eraill leihau faint o becynwaith y maent yn ei ddefnyddio a gall eraill drosglwyddo rhai o'r costau ymlaen i dreulwyr. Bydd y graddau a'r opsiwn a ddewisir yn dibynnu ar gyflwr y farchnad a'r gystadleuaeth rhwng cynhyrchwyr. Os bydd busnesau sydd â rhwymedigaeth yn penderfynu trosglwyddo'r costau i dreulwyr, bydd y treulwyr hynny sy'n prynu cynhyrchion sydd wedi'u pecynnu'n drwm yn cael eu heffeithio'n fwy na'r treulwyr hynny nad ydynt yn prynu cynhyrchion o'r fath. Pe bai busnesau'n dewis trosglwyddo rhai o'r costau, yna byddai cynnydd mewn prisiau yn cael effaith fwy yn gyfrannol ar bobl mewn grwpiau incwm is sydd â llai o incwm gwario. Fodd bynnag, byddai pobl yn gallu lliniaru hyn drwy ddewis cynhyrchion gyda llai o becynwaith neu becynwaith mwy cynaliadwy. Yn ogystal, mae gan y busnesau hynny sydd naill ai ddim yn trosglwyddo'r costau neu sydd ddim yn gwella eu heffeithlonrwydd adnoddau a'u cynllun y gallu o bosibl i wella eu cystadleurwydd gyda busnesau sy'n gwneud hynny.

Mae cyflwyno EPR yn cyfrannu'n uniongyrchol at gyflawni amcanion llesiant canlynol Llywodraeth Cymru:

- ‘Adeiladu economi gryfach a gwyrddach wrth inni ddatgarboneiddio cymaint â phosibl’

  Trwy symud i economi fwy cylchol drwy wella effeithlonrwydd adnoddau a chynyddu ailgylchu a thrwy ddefnyddio deunyddiau am gyfnod hirach. Bydd y cynllun yn helpu i leihau'r defnydd o ddeunyddiau crai a phecynwaith untro hefyd.

- ‘Ymgorffori ein hymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur ym mhopeth a wnawn’
  Trwy ddyrannu cyfrifoldeb am y costau net llawn, bydd hynny'n ymgorffori gweithredu ar argyfwng hinsawdd a natur yng nghylch oes pecynwaith, gan felly leihau'r defnydd o ddeunyddiau crai a lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr.

- ‘Adeiladu economi ar sail egwyddorion gwaith teg, cynaliadwyedd a diwydiannau a gwasanaethau'r dyfodol’
  Bydd y cynllun yn cefnogi'r gwaith o adeiladu economi sy'n seiliedig ar gynaliadwyedd drwy gymhwyso'r egwyddor y llygrwr sy'n talu a thrwy hynny

ysgogi cynnydd mewn effeithlonrwydd adnoddau a gostyngiad yn y defnydd o ddeunyddiau newydd sbon fel rhan o'r newid tuag at economi gylchol.

Mae'r cynllun yn cyfrannu'n uniongyrchol hefyd at y Nodau Llesiant fel a ganlyn:

**Cymru Ffyniannus** - cefnogi'r newid tuag at Gymru gylchol, ddiwastraff a charbon sero net erbyn 2050. Bydd yn cynyddu lefelau ailgylchu Cymru, mynd i'r afael â thaflu sbwriel, gwella effeithlonrwydd adnoddau a lleihau'r defnydd o becynwaith untro a deunyddiau crai newydd sbon ac yn helpu i gipio adnoddau'n fwy effeithiol i'w defnyddio mewn economi gylchol.

**Cymru Gydnerth** - cyfrannu at leihau echdynnu deunyddiau crai ac felly dinistrio llai o gynefinoedd yn sgil hynny, gan felly ddiogelu bioamrywiaeth hefyd.

**Cymru o gymunedau cydlynus** - helpu i fynd i'r afael â thaflu sbwriel drwy gwmpasu'r costau net llawn ar gyfer rheoli pecynwaith sy'n cael ei daflu fel sbwriel, gan fynd i'r afael felly ag annymunoldeb sbwriel pecynwaith mewn cymunedau.

**Cymru Iachach** – drwy leihau annymunoldeb sbwriel, bydd y cynllun yn cefnogi lles meddyliol.

**Cymru â Diwylliant Bywiog** - drwy gefnogi safle cydnabyddedig Cymru fel cenedl ailgylchu gyda diwylliant ailgylchu y mae pobl a chymunedau yn falch ohono. Bydd EPR yn ymgorffori cynaliadwyedd ymhellach i gymdeithas Cymru hefyd.

**Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang** - cymell cynnydd mewn effeithlonrwydd adnoddau a gostyngiad yn y defnydd o ddeunyddiau crai, gan felly gyfrannu at ddinistrio llai o gynefinoedd a llai o allyriadau.

**Cymru sy'n Fwy Cyfartal** - cymhwyso'r egwyddor y llygrwr sy'n talu er mwyn cyflwyno system decach sy'n adlewyrchu costau net llawn gwastraff pecynwaith.

Mae'r Offeryn Statudol hwn yn canolbwyntio ar roi'r gofynion ar waith ar gyfer casglu data, ac nid yw'n effeithio'n uniongyrchol ar bobl sydd â nodweddion gwarchodedig. Felly nid yw Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant wedi'i gwblhau. Bydd yr asesiad effaith sy'n ofynnol ar gyfer y diwygiadau ehangach ar gyfer pecynwaith a'r Rheoliadau dilynol yn ystyried effaith y cynllun ar bobl sydd â nodweddion gwarchodedig, gan gynnwys plant.

**8.3 Yng ngoleuni'r effeithiau a nodwyd, sut y bydd y cynnig:**

- **yn sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl i'n hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant; a/neu,**
- **yn osgoi, lleihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

Mae'r rheoliadau'n canolbwyntio ar gyflwyno'r gofynion i gasglu data allweddol ar faint o becynwaith a'r math o becynwaith sy'n cael ei roi ar y farchnad. Mae hwn yn gam allweddol o ran gweithredu'r cynllun EPR ar gyfer pecynwaith fel polisi allweddol i gefnogi'n uniongyrchol y newid tuag at economi gylchol a helpu i gyflawni Cymru ddiwastraff a charbon sero net erbyn 2050. Drwy leihau'r defnydd o becynwaith, sydd yn aml iawn at ddefnydd untro, a chynyddu lefelau ailgylchu

deunydd pacio, bydd y cynllun yn lleihau'r allyriadau carbon cysylltiedig, y defnydd o ddeunyddiau crai newydd sbon a chyfanswm sbwriel deunydd pacio ac effeithiau cysylltiedig.

Bydd y cynllun yn sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl tuag at gyflawni Amcanion Llesiant a Nodau Llesiant statudol Llywodraeth Cymru fel y nodir uchod. Mae cynaliadwyedd yn egwyddor ganolog i'r diwygiadau hyn, sy'n cefnogi'r newid tuag at atebion mwy cynaliadwy er mwyn diwallu anghenion y presennol mewn perthynas â'r defnydd o becynwaith, gan fynd i'r afael yr un pryd ag effeithiau presennol y defnydd o becynwaith sy'n amharu'n uniongyrchol ar allu cenedlaethau'r dyfodol yn uniongyrchol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.

Mae'r prif effeithiau'n gysylltiedig â throsglwyddo costau i gynhyrchwyr er mwyn talu am gostau rheoli gwastraff ac ailgylchu'r deunyddiau y mae busnesau sydd â rhwymedigaeth yn dewis eu defnyddio. O dan gam cyntaf EPR (a fydd yn dechrau yn 2024), bydd costau sy'n ymwneud â phecynwaith aelwydydd (£1.2 biliwn) yn cael eu trosglwyddo i gynhyrchwyr, gydag ail gam EPR sy'n ymwneud â gwastraff busnesau bach a microfusnesau yn cael ei gyflwyno maes o law (£0.9 biliwn).

Er mwyn lliniaru'r effaith ar fusnesau llai, bydd trothwy de minimis yn cael ei osod ar drosiant o £2 miliwn a 50 tunnell o becynwaith yn cael ei roi ar y farchnad ar gyfer cynhyrchwyr. Fodd bynnag, bydd gofyn i gynhyrchwyr sy'n is na'r trothwy £2 miliwn/50 tunnell hwn, ond sydd â throsiant uwch na £1 miliwn ac yn rhoi mwy na 25 tunnell o becynwaith ar y farchnad, adrodd am gyfanswm y pecynwaith, yn ôl y math o ddeunyddiau a phecynwaith, y maent yn ei roi ar y farchnad yn 2024. Er hynny, ni fydd ganddynt rwymedigaeth i dalu ffioedd i dalu am gostau gwaredu na chyflawni rhwymedigaethau ailgylchu. Bydd hyn yn lleihau'r baich ar gynhyrchwyr bach, ond yn sicrhau eu bod yn cael eu cynnwys yn y system, gan felly gynyddu eu hymwybyddiaeth o raddfa ac effeithiau eu pecynwaith.

Bydd gweithgynhyrchwyr a mewnforwyr pecynwaith sydd heb ei lenwi hefyd yn gyfrifol am becynwaith sy'n cael ei werthu i fusnes bach sydd islaw'r trothwy de minimis. Mae hyn yn golygu y byddai'r busnes sy'n gwerthu'r pecynwaith i'r busnes bach yn gorfod talu'r ffioedd cynhyrchwr, yn hytrach na'r busnes bach ei hun. Bydd hyn yn arwain at fwy o becynwaith yn cael ei adrodd yn y system a'r costau'n cael eu rhannu'n decach ymhlith cynhyrchwyr, gan ddiogelu'r busnesau lleiaf rhag effeithiau'r rhwymedigaethau ar yr un pryd.

Bydd y cynllun hefyd yn cyflwyno gofyniad gorfodol i gasglu cwpanau cyfansawdd sy'n seiliedig ar ffibr. Er mwyn lliniaru'r effaith ar fusnesau bach, bydd gwerthwyr sy'n cyflogi llai na 10 aelod staff cyfwerth ag amser llawn yn cael eu heithrio o'r gofyniad hwn.

**8.4 Sut y caiff effaith y cynnig ei monitro a'i gwerthuso wrth iddo fynd rhagddo a phan ddaw i ben?**

Mae'r Offeryn Statudol hwn yn cyflwyno'n benodol ofynion sy'n gysylltiedig â chasglu ac adrodd am ddata, a fydd yn galluogi monitro a gwerthuso'r cynllun ehangach.

Ar gyfer y cynllun yn ei gyfanrwydd, bydd Gweinyddwr y Cynllun, a fydd yn cael y dasg o weithredu'r cynllun, yn ymgymryd â rôl allweddol yn y gwaith parhaus o werthuso'r diwygiadau. Hefyd, bydd targedau ailgylchu statudol yn rhan o'r cynllun a bydd cynnydd yn erbyn y rhain yn cael ei fonitro gan Gyfoeth Naturiol Cymru fel rheoleiddiwr y cynllun yng Nghymru.